# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 5 Mehefin 2018

Amser: 08.30 - 08.50

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 20 Mehefin 2018 –**

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Adroddiad ar y Tanwariant ym Mhenderfyniad y Bwrdd Taliadau (30 munud)

**Dydd Mercher 27 Mehefin 2018 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar Ddeisebau P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf a P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

# 4 Gadael yr Undeb Ewropeaidd

## 4.1 Newidiadau posibl yn y Rheolau Sefydlog sy'n deillio o Fil yr UE (Ymadael)

Nododd y Rheolwyr Busnes y papur a chytunwyd mewn egwyddor mai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddylai fod yn bwyllgor sifftio. Fodd bynnag, dywedodd Arweinydd y Tŷ yn glir bod ei chytundeb yn ddarostyngedig i ddatrys maint y pwyllgor a chydbwysedd gwleidyddol mewn ffordd sy'n bodloni.

Cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i gyflwyno papur i gyfarfod yn y dyfodol ar yr opsiynau ar gyfer nodi'r materion o ran maint a chydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth hefyd i barhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i edrych ar y cylch gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth yng ngoleuni Bil yr UE (Ymadael) a datblygiadau eraill.

## 4.2 Atodiad - Llythyr gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Newidiadau posibl i'r Rheolau Sefydlog, yn deillio o Fil yr UE (Ymadael)

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr.

# Unrhyw fater arall

Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hysbysu gan y Llywydd fod Caroline Jones wedi ymddiswyddo fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad. Gofynnodd y Llywydd i UKIP hysbysu'r Pwyllgor Busnes o'i enwebiad ar gyfer Comisiynydd newydd.